



# Gwydn a Chynhyrchiol

## Rhwydwaith Ein Ffermydd

Lleihau mewnbynnau allanol i sicrhau'r elw a'r buddion gorau posibl i'r amgylchedd

› Cynhaliwyd **6 chyfarfod** ledled Cymru yn canolbwyntio ar reoli pori yn y gwanwyn fel rhan o Brosiect [Porfa Cymru](#) gyda **123 o ffermwyr yn bresennol**

**Adborth:** "Pwnc hynod bwysig" - "Siaradwr gwych, llawn gwybodaeth a byddaf yn bendant yn dysgu o'r holl wybodaeth" - "Byddaf yn troi gwartheg i'r borfa o ganlyniad i'r cyfarfod hwn".

## Dosbarthiadau Meistr



Cynhaliwyd **16 Dosbarth Meistr** yn canolbwyntio ar **themâu allweddol:**

› Meincnodi, Cynllunio Busnes, Bioddioelwch, Arallgyfeirio, Lleihau mewnbynnau allanol i sicrhau'r elw a'r buddion gorau i'r amgylchedd, Trosi i ffermio organig/adfywiol



**Adborth:** "Rydw i wedi mynychu ychydig o ddsbarthiadau meistr erbyn hyn gyda Cyswllt Ffermio, a dyma'r gorau o bell ffordd o ran yr hyn yr ydw i wedi'i ddysgu. Rwy'n credu bod mynd drwy bethau gam wrth gam gyda'ch gliniadur gyda chymorth eraill yn y gweithdy wedi helpu i'r wybodaeth aros yn y cof."



## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cnydau Porthiant ar gyfer Pesgi Wŷn: Cnydau Bresych | Cyswllt Ffermio ([gov.wales](#))

## Agrisgôp

### Cynhaliwyd 18 cyfarfod Agrisgôp

Meincnodi a chynllunio busnes	7
Lleihau mewnbynnau allanol i wneud yr elw gorau posibl a bod o fudd i'r amgylchedd	5
Newid i ffermio organig/adfywiol	4
Arallgyfeirio (gan gynnwys i arddwriaeth) ac ychwanegu gwerth	11
Mentrau ar y cyd, cynllunio olyniaeth a newydd ddyfodiaid	5
Sefydlu a datblygu mentrau garddwriaeth	5

Bu'r grwpiau a fu'n cyfarfod yn ystod y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar y canlynol -

Cafwyd taith astudio i Rose Amey, perllan goed Ysgaw yng Ngwlad yr Haf lle cafwyd taith dywys o'r blanhigfa, gan gynnwys trafodaeth ynglŷn â rheoli, cynaeafu a phrosesu. Yn dilyn yr ymweliad, bu aelodau'r grŵp yn trafod yr hyn a ddysgwyd ar gyfer eu safleoedd eu hunain.

## Podlediad- Clust i'r Ddaear



### Rhifyn 91:

Datgelu cyfle posibl arall yng nghefn gwlad Cymru

## Cymorthfeydd


Cwblhawyd **215** o gymorthfeydd  
Roedd pynciau'n cynnwys ■ Ynni  
■ Arallgyfeirio ■ Cynllunio

### Adborth:

"Cyngor defnyddiol a chefnogol o ran dylunio a chynllunio ar gyfer gorchuddio'r iard"

## Mentora

### Cynhaliwyd 127 cyfarfod mentora



#### Nifer y cyfarfodydd:

- Meincnodi a chynllunio busnes **70**
- Lleihau mewnbynnau allanol i wneud yr elw gorau posibl a bod o fudd i'r amgylchedd **4**
- Newid i ffermio organig/adfywiol **5**
- Arallgyfeirio (gan gynnwys i arddwriaeth) ac ychwanegu gwerth **33**
- Mentrau ar y cyd, cynllunio olyniaeth a newydd ddyfodiaid **3**
- Sefydlu a datblygu mentrau garddwriaeth **11**
- Bioddioelwch (da byw a chnydau â'r) **1**

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora'n cynnwys:

"Buom yn trafod cynlluniau busnes presennol y mentai, nodau 3 a 5 mlynedd ar gyfer ei werthiannau bocsys cig oen a biff yn uniongyrchol o'r fferm a chynlluniau twristiaeth ar y fferm at y dyfodol."

## Digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol

**11** digwyddiad **294** o fynychwyr

#### Roedd digwyddiadau'n cynnwys:

- Rheoliadau storio slyri newydd – Ydych chi'n barod?
- Gwneud y defnydd gorau o'ch offer EID i wneud gwelliannau geneteg

#### Adborth:

"Roedd y siaradwr yn gallu ateb pob math o gwestiynau - digwyddiad gwych"

## Grwpiau Trafod

Themâu	Nifer y Grwpiau Trafod	Nifer y Mynychwyr	Oriau Datblygu Proffesiynol Parhaus
Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon	40	305	95
Cylch gwella iechyd anifeiliaid	37	288	89
Defnyddio gwelliannau i eneteg	1	6	2
Effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy	2	14	4
Ymgorffori coed, rheoli coetir	1	9	2

**Geiriau Allweddol:** › Iechyd Anifeiliaid › Pori Cylchdro › Lleihau risg  
› Casglu data › Costau mewnbynnau › Gorbenion

## Clinigau

Cwblhawyd **300** clinig

**Adborth:** "Gwasanaeth buddiol a ddangosodd wendid yn ein priddoedd y gallwn weithio i'w wella yn y dyfodol."

## Hyfforddiant Achrededig



Cyrsiau ar gael	Unigolion a gefnogwyd	Oriau o Hyfforddiant	Busnesau a gefnogwyd
29	39	553	31

Roedd y cyrsiau a gwblhawyd yn cynnwys:

Cynllunio a datblygu busnes - Cadw llyfrau - Cwrs Sylfaen BASIS mewn Agronomeg (Amaethyddiaeth)

**Adborth:**

“Cwrs da iawn. Rydw i wedi dysgu llawer am agronomeg a bydd hynny hefyd o fudd i ni ar y fferm” (Cwrs Agronomeg)

“Yn dilyn y cwrs hwn, byddaf yn edrych ar effeithiau sefydlu ein busnes arallgyfeirio ar yr amgylchedd, a sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion trwyddedu.” (Cwrs Cynllunio Busnes)

## E-ddysgu



Modiwlau ar gael	Unigolion a gwfogwyd	Busnesau a gefnogwyd
70	107	58

Roedd y modiwlau a gwblhawyd yn cynnwys:

E-ddysgu: Uned Orfodol: Hanfodion Busnes Llwyddiannus

E-ddysgu: Erthyly mewn Mamogiaid

E-ddysgu: Uned Orfodol: Datblygu Sgiliau Arwain a Sgiliau Pobl ar gyfer Busnes Llwyddiannus

**Modiwlau Newydd ar gael ar BOSS:**

E-ddysgu: Uned Orfodol: Datblygu Sgiliau Arwain a Sgiliau Pobl ar gyfer Busnes Llwyddiannus

E-ddysgu: Olyniaeth – Nid Treth ydy'r Unig Ystyriaeth!

E-ddysgu: Lleihau Allyriadau Amonia

**Cyfresi newydd o fodiwlau E-ddysgu Achrededig:**

Pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cyflwyniad i Ffermio Cynaliadwy

## Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Gweithdai a Gynhaliwyd	Unigolion a gefnogwyd	Nifer yr oriau o hyfforddiant	Busnesau a gefnogwyd
45	620	620	1860

Roedd **27% o'r unigolion a gefnogwyd** o fewn yr ystod oedran 25-40 mlwydd oed.

Roedd y gweithdai a gynhaliwyd yn cynnwys:

Ymwrthedd i Wrthfotigau	Magu lloi iach a sicrhau'r elw gorau
Colli Wyn Rhan 1: Erthyly a Maeth	Deall Clefyd Johnes

**Dyfyniad gan un o fynychwyr y gweithdy Colledion Wyn:**  
“Cyflwyniad diddorol llawn gwybodaeth gan siaradwyr gwybodus.”

## Rhaglen Geneteg Defaid Cymru



Cwblhawyd 5 gweithdy yn canolbwyntio ar fusnes a meincnodi fel thema allweddol gan gynnwys y pynciau canlynol:

- › Cofnodi yn ystod wyna (DNA)
- › Cofnodi yn ystod wyna (â llaw)
- › Gweithdy EID
- › Gweithdy Bridio a Geneteg ym Marchnad Da Byw Llanfair ym Muallt
- › Gweithdy Bridio a Geneteg ym Marchnad Da Byw Y Trallwng

**Adborth o'r gweithdai 'Cofnodi yn ystod y cyfnod wyna':**

“Llawn gwybodaeth ac yn dda ar gyfer atgoffa”

“Cyflwyniad clir, ffordd dda o atgoffa cyn wyna”

Cynhaliwyd dau gyfarfod adolygu blynyddol hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Roedd gwybodaeth a rannwyd yn ystod y digwyddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar gynnydd genetig y diadelloedd a fu'n cymryd rhan, a oedd yn dangos gwelliant mewn perfformiad gan arwain at gynnydd o £4 y famog o ran elw blynyddol, a 1kg ychwanegol o bwysau wryn yn ystod yr un cyfnod.

## Garddwriaeth



### HYFFORDDIANT GARDDWRIAETH

Cynhaliwyd **7 digwyddiad Garddwriaeth** gan gefnogi **51 unigolyn** o **41 busnes gwahanol**.

Roedd digwyddiadau'n cynnwys: Strategaethau rheoli chwyn ar gyfer busnesau addurniadol - Cynyddu effeithlonrwydd mewn systemau cynhyrchu tatws ar raddfa cae - Tyfu ysgaw ar gyfer cynhyrchiant yn y DU.

**Adborth:** “Llawn gwybodaeth” - strategaethau rheoli chwyn ar gyfer busnesau addurniadol. “Diwrnod gwych, cynnwys ardderchog wedi'i gyflwyno gan bobl sy'n gwybod am beth maen nhw'n siarad” - Tyfu ysgaw ar gyfer cynhyrchiant yn y DU.

### CYMORTH BUSNES I FUSNESAU GARDDWRIAETH

Cynhaliwyd **39 sesiwn cymorth busnes i fusnesau Garddwriaeth** gan gefnogi **36 unigolyn** o **29 busnes gwahanol**.

**Adborth:** “Rydw i wedi cael llawer o waith drwy'r ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac wedi cyrraedd llawer o dyfwr blodau eraill yn lleol er mwyn rhwydweithio, ac nid oes angen hysbysebion na chylchlythyrau papur i wneud hynny.” - Hyfforddiant Marchnata Digidol.

Cynhaliwyd **6** chyfarfod clwstwr y gadwyn gyflenwi gan gefnogi **13 unigolyn** o **10 busnes gwahanol**. Llyisiau o Gymru mewn Ysgolion, Cynlluniau Hyfforddeiaeth at y dyfodol yn edrych ar arddwriaeth amaeth-ecolegol, a chynhwysion o Gymru.

## Gwasanaeth Cynghori



Bu'r Gwasanaeth Cynghori yn cefnogi'r canlynol:

<b>70</b>	<b>Cynllunio Busnes</b> gan gynnwys arallgyfeirio, coetiroedd	<b>1</b>	<b>Cyngor Iechyd Anifeiliaid</b>
<b>56</b>	<b>Rheoli Glaswelltir</b>	<b>2</b>	<b>Perfformiad da byw</b>

Adborth gan ffermwr: “Mae'r ymgyngorydd wedi bod o fudd mawr i mi, gan gynnig help a gwybodaeth gan fy mod wedi gorfod dysgu llawer ers colli fy ngŵr”

